WILLIAMS, WILLIAM ('Caledfryn'; 1801 - 1869), gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a beirniad

Enw: William Williams
Ffugenw: Caledfryn
Dyddiad geni: 1801
Dyddiad marw: 1869
Plentyn: Margaret Mary Williams
Plentyn: William Williams
Rhiant: Mary Williams (née Roberts)
Rhiant: Thomas Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, bardd, a beirniad
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Frank Price Jones

Ganwyd 6 Chwefror 1801 yn Bryn y Ffynnon, Dinbych, mab hynaf Thomas a Mary Williams - y tad yn wehydd ac yn cadw siop. Addysgwyd ef mewn amryw o ysgolion yn y dref ond oddeutu 1814 dyrysodd amgylchiadau ei dad; gwerthwyd y siop a symudodd y teulu i stryd Henllan lle parhaodd y tad ei waith fel gwehydd. Anfonwyd y mab at ei daid a'i ewythr yn Llanrwst i ddysgu gwaith gwehydd, ac yna dychwelodd i gynorthwyo ei dad. O c. 1820 hyd c. 1826 bu'n cadw ysgol yng nghapel y Methodistiaid yn Ninbych. Yn 1827 ffraeodd â rhai o flaenoriaid y Methodistiaid ac ymaelododd gyda'r Annibynnwyr yn Lôn Swan. Cymhellwyd ef i bregethu gyda hwy a bu am dri mis yng ngholeg Rotherham. Ordeiniwyd ef yn weinidog eglwysi Peniel (Llannerch-y-medd) a Maenaddwyn 2 Mehefin 1829. Yna bu'n weinidog yn Pendref (Caernarfon), 1832-48; Aldersgate Street, Llundain, 1848-50; Llanrwst, 1850-56; Beulah ger Bangor, 1856-7; a Groeswen, o 1857 hyd ei farw 23 Mawrth 1869.

Priododd dair gwaith a ganwyd iddo un mab, William ('ap Caledfryn'), a merch, Margaret Mary.

Urddwyd 'Caledfryn' yn fardd yng Nghaernarfon, Medi 1821, ac enillodd y gadair am ei awdl ar 'Drylliad y Rothesay Castle' yn Biwmares 1832. Cyhoeddodd *Cyfarwyddiadur i Ddarllen ac Ysgrifennu Cymraeg*, 1821; *Grawn Awen*, 1826; *Drych Barddonol neu Draethawd ar Farddoniaeth*, 1839; *Grammadeg Cymreig*, 1851; a *Caniadau Caledfryn*, 1856. Golygodd *Gardd Eifion*, gwaith 'Robert ap Gwilym Ddu' yn 1841 a *Eos Gwynedd*, gwaith John Thomas, Pentrefoelas, yn 1845, a chasgliad o emynau yn 1860. Cyfrannodd draethodau ar 'Robert ap Gwilym Ddu' a 'Dewi Wyn o Eifion' i'r *Traethodydd* yn 1852 ac 1853. Golygodd amryw gylchgronau gan gynnwys *Y Sylwedydd*, 1831; *Tywysog Cymru*, 1832-3; *Y Seren Ogleddol*, 1835; *Yr Adolygydd*, 1839; *Cylchgrawn Rhyddid*, 1840; a'r *Amaethydd*, 1852. Bu'n cynorthwyo i olygu *Yr Adolygydd*, 1850, *Y Dysgedydd*, *Y Gwladgarwr*, a'r *Gwron*. Bu'n feirniad mewn eisteddfodau lawer a chwynid ei fod yn llym iawn; gwrthwynebai lawer o syniadau beirdd ei gyfnod a chymeradwyai gynghanedd ystwyth a naturiol.

Cefnogodd y mudiad Rhyddfrydol ar lwyfan ac mewn pamffledi. Bu'n amlwg yn yr Anti-Corn Law League, y Gymdeithas

Heddwch, a Chymdeithas Rhyddhad Crefydd. Gwrthwynebodd Factory Bill Syr James Graham (1843) a rhoddodd dystiolaeth o blaid Anghydffurfwyr gerbron comisiwn addysg 1846. Gwrthwynebodd fudiad y llwyrymwrthodwyr gan gefnogi yn hytrach gymedroldeb. Cyhoeddwyd ei hunangofiant, ynghyd â pheth o'i weithiau, dan y teitl *Cofiant Caledfryn* (gol. Scorpion), gan H. Evans yn y Bala, 1877.

Awdur

Frank Price Jones, (1920 - 1975)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Y Traethodydd, 1900, 384

Y Geninen, Mawrth 1889, 17; 1906, 172

Cymru (O.M.E.), xxi, 155

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 389; iii, 240

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96)

The Congregational Year Book, 1870

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 674-9

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944)

Y Dysgedydd, 1869, 170

Baner ac Amserau Cymru, 31 Mawrth a 7 a 14 Ebrill 1869

Carnarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893), 118, 145, 162, 169

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Williams

Delweddau

LlGC: Er Coffadwriaeth Am Y Parch W Caledfryn Williams, Groeswen

Gweithiau

John Thomas, William Williams (gol.), *Eos Gwynedd: sef casgliad o ganiadau ar destynau crefyddol, moesol, a difyrol* (Llanrwst 1845)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 71161983

Wikidata: Q16737332

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.